

Cydweithfa fwyd Dolwyddelan

Wrth i'r gwanwyn brysur agosáu, beth am edrych tua Chydweithfa Fwyd Dolwyddelan i'ch helpu chi gadw'n iach? Y nod ydy eich galluogi chi fyw'n iach yn fforddiadwy -


- Bagiad o ffrwythau £3
- Bagiad o salad £3
- Bagiad o lysiau £3

Bob wythnos bydd y cynhwysion yn y bagiau yn dibynnu ar werth am arian a'r tymor. Bydd y cynnwys yn amrywio bob wythnos.

Mae angen rhoi archeb erbyn y dydd Mawrth a bydd y bwyd yn cyrraedd y **Pafiliwn Cymunedol** y dydd lau canlynol. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â **Kirsty Jones** drwy **07772115026**, neu wrth gwrs dewch draw i'r Pafiliwn unrhyw ddydd lau i weld safon y bwyd er mwyn i hynny ddwyn eich perswâd!

Popty newydd!

Diolch i gyfraniad lleol, mae gan y Pafiliwn Cymunedol bopty maint llawn rŵan y gall pobl ei ddefnyddio pan maen nhw'n llogi'r Pafiliwn - perffaith os oes gennych chi barti pen-blwydd ar y gorwel! Diolch yn fawr iawn i Simon Wilkins, **Let's Connect Electrical** Ffôn: 07852 241 238 am osod y bopty 😊



Ar y gweill yn rhifyn yr haf

Adroddiad am chwifio '**Baner Llywelyn**' unwaith eto dros bentref Dolwyddelan

(maes parcio **Gwesty Elen's Castle**)